# Apêl De Affrica

## Tudalen stori 2 – Amynedd

Dechreuodd **AFRA** gefnogi **Emmanuel Mbele (63)** a'i gymdogion yn y 1980au wrth iddyn nhw ymladd yn erbyn cynlluniau i'w symud i 'ardal ddu'. Wedi i apartheid ddod i ben, helpodd AFRA y gymuned i wneud cais llwyddiannus am hawl i'r tir. Yn awr mae ganddynt fynediad rhydd i gael dŵr, coed tân a gwellt i doi eu tai, ac fe gaiff eu gwartheg bori'n rhydd heb yr ofn y cânt eu caethiwo gan y tirfeddiannwr.

Cymorth Cristnogol/Jodi Bieber/NB Pictures

Dywed Emmanuel am y tirfeddiannwr cynt: 'Roedd perthynas ddrwg iawn rhyngom ni. Roedden nhw'n ein hatal rhag mynd at adnoddau angenrheidiol ac yn mynd â'n gwartheg i ffwrdd.'

'Roedd AFRA yn ein cefnogi trwy roi gwybodaeth inni,' meddai Emmanuel.' Fe ddwedon nhw na all pobl gael eu taflu oddi ar eu tir heb ganiatâd. Roedden ni'n gwybod nad oeddem ni am gael ein symud ond roeddem ni'n gwybod bod angen help arnom ni. Felly fe aethom i chwilio am bobl a allai chwilio trwy'r cyfreithiau a gweld os oedd e'n gyfreithlon.'

'Roeddem wedi penderfynu nad oeddem ni yn mynd i symud, ein bod yn mynd i aros fan hyn, ond roedd yn frwydr anodd i oroesi pan gawsom ein gadael fan hyn. Yna dywedodd AFRA wrthym ni am y rhaglen diwygio tir. Fe ddaethon nhw â phobl o Pretoria yma i ddweud wrthym ni sut i hawlio'r ffermydd cyfagos. Roedd yna bedair fferm. Roedden nhw yn mynd i'w gwneud yn warchodfa anifeiliaid, estyniad o'r warchodfa gerllaw.'

'Heddiw mae AFRA wedi'n helpu i fynd gam ymhellach. Mae gyda ni glinigau ac y mae trydan mewn rhai ardaloedd hefyd. Mae dŵr gyda ni, er bod yna broblemau gyda'r cyflenwad. Fel rwy'n dweud, maen nhw wedi gwneud digon, ond y peth pwysicaf oedd ein helpu ni i gael ffermydd newydd, achos dyna ddechrau popeth.'

'Heb AFRA, byddem wedi gorfod ildio a chael ein symud. Helpodd AFRA ni i aros. Roedd rhai aelodau o'r gymuned wedi clywed am AFRA a mynd atyn nhw. Fe ddaethon yma a dweud bod yna ffordd, ac wedyn roedd pobl yn byw mewn gobaith. Rydym ni'n byw mewn cyfnod o dlodi ac mae eich perthynas â'r tir yn hanfodol i oroesi. Gyda thir, fe allwch chi ffermio a chynhyrchu bwyd i chi a'ch teulu heb orfod symud i chwilio am waith rhywle arall.'

'Mae tir yn golygu rhyddid. Allwch chi ddim bod yn rhydd i wneud beth fynnoch chi ar dir rhywun arall. Pan fyddwch yn gwybod mai chi sydd berchen y tir rydych chi am fuddsoddi ynddo a'i wneud yn well. I fod yn berson cyflawn rydych chi am bori'ch anifeiliaid ac adeiladu eich tŷ lle mynnoch chi. Ond dyw pobl ddim wedi cael eu hyfforddi'n dda ac felly dyw e ddim wedi gweithio allan yn dda i gyd. Edrychwch ar y tir yma ac edrychwch arno'n mynd i wastraff. Does dim yn digwydd yma. Allwch chi ddim jyst cymryd fferm drosodd. Rhaid i chi gael eich dysgu sut i'w rhedeg.'

'Roeddem ni mewn sefyllfa ble'r oeddem ni yn ansicr a dan fygythiad. Nawr mae gyda ni deimlad o ryddid. AFRA a'n helpodd ni i gael y teimlad o ryddid.'

'Mae angen i ni symud ymlaen nawr fel gall ein plant ni elwa hefyd. Rhaid i ni drin y tir yma'n dda er mwyn iddo fod yn barod i genedlaethau i ddod.'

South Africa Appeal

# Nodiadau pregeth

## Lefiticus 26:1-13

Mae llyfr Ecsodus yn dechrau gyda stori caethiwed yr Iddewon yn yr Aifft, a drama'r 10 pla. Dilynir hyn gan eu dihangfa gyffrous, eu hymlid gan fyddin Pharo, agor y Môr Coch a dinistrio'r fyddin gan y tonnau. Cafodd yr Iddewon addewid am wlad eu hunain ond dilynwyd eu dihangfa o'r Aifft gan 40 mlynedd o grwydro yn yr anialwch. Mae gweddill digwyddiadau Ecsodus, a digwyddiadau Lefiticus, Numeri a Deuteronomium yn cymryd lle yn ystod y cyfnod hwn o aros. Ar ddechrau llyfr Joshua gwelwn yr Iddewon o'r diwedd yn dod i'w cartref newydd. Cawsant lawer o reolau ar sut i fyw eu bywydau yn ystod y cyfnod yma, ac yr oedd yn rhaid iddynt ddysgu - er na fu iddynt wastad ddangos - amynedd mawr. Addawodd Duw y byddai ef gyda hwy yn ystod y cyfnod o aros, ac y byddai yn eu bendithio mewn amser i ddod - ond ddim eto.

Mae'r stori o Dde Affrica (drosodd) hefyd yn sôn am aros. Daeth diwedd ar apartheid yn 1994 ond mae llawer o bobl heb brofi eto'r bendithion yr oeddent yn gobeithio byddai'n dod gyda'r diwedd. Byddai rhai am ddadlau y dylai cyfiawnder fod wedi dod blynyddoedd yn ôl, ond y gwir yw na ddaeth i bawb eto. Gall achosion cyfreithiol am berchnogaeth tir, tebyg i'r un a ddisgrifir gan Emmanuel, gymryd degawdau, ac mae'n rhaid i'r bobl sy'n cael eu heffeithio, ddangos amynedd mawr.

Mae yna rywbeth yma i ni ddysgu am ffydd a dal ati. Oes yna bethau y mae eich eglwys yn dyheu ac yn gobeithio amdanynt, ond sydd heb ddod eto? Mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio i roi terfyn ar dlodi ers 60 mlynedd, ond nid ydyw wedi digwydd eto. Mae'r gwaith a wnaeth ein partneriaid dros y 60 mlynedd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i filiynau o bobl, ond mae'r dydd maent yn dyheu amdano, pan na fydd tlodi, eto i ddod. Mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod cadw mewn cof geiriau Duw, ei fod yn sefyll gyda hwy yn ystod y cyfnod o aros a bod bendithion eto i ddod.

## Gweddïau

O Dduw, yr wyt ti'n addo byd
lle caiff y rhai sydd yn awr yn wylo chwerthin;
y rhai sydd yn awr yn newynog wledda;
y rhai sydd yn dlawd ac yn wrthodedig nawr
gael dy deyrnas di'n eiddo iddynt hwy.
Yr wyf finnau am feddu'r byd hwn.
Ymwrthodaf ag anobaith.
Gweithredaf dros newid
Dewisaf gael fy nghynnwys
yn dy wledd fawr di, gwledd y bywyd.
Amen

## Syniadau codi arian

- Stori am dyfu bwyd ar y tir yw stori Emmanuel. Beth am gynnal swper cynhaeaf yn eich eglwys, gan ddefnyddio cynnyrch lleol i ddathlu'r hyn mae'r tir yn ei rhoi. Gofynnwch am gyfraniad i'r apêl yn gyfnewid am docyn. Neu, fe allech ddefnyddio ryseitiau o Dde Affrica (mae digon i gael ar y rhyngrwyd – chwiliwch am 'South Africa recipe').

- Gallech gynnwys nwyddau masnach deg o Dde Affrica yn eich pryd bwyd, fel gwin (os yw'n addas yn eich eglwys), ffrwythau sych (i godi archwaeth), rhesins (fel cynhwysydd) rhesins iogwrt neu siocled (yn eich bowlen arbennig!) ar ddiwedd y pryd. Gellir cael yr holl gynnyrch hyn gan Traidcraft.

- Un mater a godwyd gan Emmanuel yn y stori drosodd yw bod rhai pobl angen mwy na chael y tir yn ôl. Mae'n rhaid iddynt hefyd ailddysgu'r sgiliau ffermio a gollwyd gan eu teuluoedd wrth symud i ffwrdd oddi wrth ffermio hunangynhaliol. Gallech gysylltu'r stori hon gyda 'arwerthiant addewidion', h.y. cael pobl yn eich eglwys neu gymuned i gynnig dysgu eu sgiliau ar gyfer yr apêl, e.e. gall yr organydd gynnig gwers ar organ y capel i rhywun sydd ond wedi chwarae'r piano; gall garddwr brwd gynnig gwers mewn adnabod chwyn neu dyfu llysiau; gall triniwr gwallt gynnig gwers i riant sut i dorri gwallt plentyn.

## Ysgol Sul

- Mae'r stori o Dde Affrica ar y daflen hon am bobl sy'n dyheu am dir i dyfu eu bwyd eu hunain. Gall bron bob plentyn dyfu rhywbeth, i'w helpu i gofio'r stori. Does dim angen gardd arnynt – e.e. gellir tyfu planhigyn pupur gwyrdd o hedyn mewn pot ar y sil ffenestr. Gallai'r athrawon helpu'r plant i blannu rhywbeth i fynd adref gyda hwy, ac yna dod yn ôl gyda'r planhigyn ychydig fisoedd wedyn er mwyn ei ddangos.

Gall **£75** dalu am le i berson ifanc mewn gweithdy preswyl dau ddiwrnod i ffermwyr i ddysgu am hawliau tir a chartrefedd.

Gall **£190** dalu am gostau cludo gweithiwr maes AFRA i gymuned wledig er mwyn helpu'r bobl gyda'r gwaith papur ar gyfer eu hawliau tir.



Rhifau elusennau cofrestredig y DG: Cymorth Cristnogol 1105851, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg 248076.
Rhif cwmni Cymorth Cristnogol 5171525